

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

---

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

## Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

**2/6/2016**

**Presennol:** Y Maer Edith Roberts, Y Dirprwy Faer Dorothi Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Ivora Jones, Eifion Roberts, Carol Rowlands, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Alun Price, John C Williams

1. Urddwyd y Maer, Edith Roberts gan y cyn-Faer, Eifion Roberts. Wrth dderbyn y gadair a'r gadwyn, dywedodd y Maer ei bod yn anrhydedd o'r mwyaf iddi gael gwasanaethu fel Maer am yr ail dro yn ei chyfnod fel Cynghorydd. Talodd deyrnged i ymroddiad ac urddas y cyn-Faer, a llongyfarchodd ef ar enedigaeth ei wŷr cyntaf.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Derbyniwyd datganiad o ddiddordeb gan Dilys Evans ym mater cais cynllunio 13.vi am ATM tu allan i siop Spar.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5/5/2016.
5. Cyfetholwyd Tony Parry yn aelod i'r Cyngor.
6. **Is bwyllgorau:** gwiriwyd aelodau'r is bwyllgorau.
7. **Camerâu cylch-cyfyng** - adroddodd Eifion Roberts fod diddordeb gan un busnes yn y dre i fod yn ganolfan ar gyfer cctv a chytunodd y Clerc i drefnu ymweliad á'r grŵp sydd yng ngofal camerâu yn Y Bermo.
8. **Diffibriliwr**- derbyniwyd gwybodaeth fod sawl peiriant ar gael yn lleol: Y Ganolfan Hamdden, tu allan i'r Llew Gwyn, yn y Clwb Rygbi, yn y Clwb Golff, wrth yr Orsaf Dân. Cytunwyd i holi a oes cynlluniau ar droed i brynu un arall yn lleol. Cytunwyd y byddai gosod sticeri yn ffenestri busnesau yn nodi lleoliadau yn ddefnyddiol; cytunodd y Clerc i holi ymhellach am ddarparu'r rhain.
9. **Baneri croeso** - adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan ei fod yn ymgymryd â'r gwaith o'u glanhau a'u trwsio. Cytunodd y Cyngor i gais y Grŵp Twristiaid i gymryd cyfrifoldeb dros y baneri ac i hysbysu'r Cwmni Yswiriant o hyn.
10. **Y Domen** - mae ymweliadau cyson gan yr heddlu ac mae Cynghorwyr a chymdogion yn monitro. Er hyn mae grŵp bychan yn parhau i adael sbwriel yno. Cytunwyd i ail-edrych ar y mater ar ôl i'r gwaith trwsio gael ei gwblhau. Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd pa bryd

bydd y gwaith yn cychwyn, ac i holi a ydy'r coed sydd ar ffin y domen yn effeithio ar y domen. Cytunwyd i ofyn am dorri'r gwair.

11. **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan fod trafodaethau yn parhau am ddarpariaeth toiledau yng Ngwynedd a bod consyrn arbennig am sicrhau darpariaeth i'r anabl.

12. **Materion Parc Cenedlaethol Eryri**

- i. Derbyniwyd rhestr o ddyddiadau cyfarfod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad ar Oleuo Ymwithiol
- iii. Ystyriwyd cais cynllunio NP5/53/L33F sef codi garej/adeiliad digwyddiadau yn y Plas Coch, Stryd Fawr. Cytunwyd i ofyn am fwy o wybodaeth am faint yr adeilad, a mynegwyd consyrn am sŵn yn deillio o ddigwyddiadau a phroblemau gyda pharcio.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am wrthod ceisiadau Spar NP5/53/LBAD53H.
- v. Ystyriwyd Cais NP5/53/LBAD53J, sef ail gyflwyniad Spar i arddangos hysbyseb, a chytunwyd fod sylwadau'r cyngor ar y cais gwreiddiol yn parhau yn ddilys.
- vi. Ystyriwyd Cais NP5/53/LBAD53K, sef ail gyflwyniad Spar i gadw peiriant ATM, a chytunwyd fod sylwadau'r cyngor ar y cais gwreiddiol yn parhau yn ddilys.
- vii. Nodwyd y gwahoddiad i noson yng Nghoed y Brenin 18/7/16.
- viii. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i newid Bron y Graig o gartref preswyl i dy annedd ac uned wyliau.
- ix. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i newidiadau yn y rheolau am ddefnydd llif oleuadau'r cae pêl droed.

13. **Materion Cyllid:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf gan nodi derbyn y Praesept (taliad cyntaf). Monitryd y gwariant yn erbyn y swm a benodwyd yn y Gyllideb. Cytunwyd i drosglwyddo £500 i gronfa'r Maer.
- ii. Cymeradwywyd ffurflen BDO a'r dogfennau ariannol wedi eu harchwilio gan John Roberts.
- iii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:
  - a. SLCC am y ffeil Governance and Accountability
  - b. Edf – goleuadau'r Nadolig 2015-16
  - c. Cyflog y Clerc

14. **Gohebiaeth:**

**Gwynedd:** Ystyriwyd ymgynghoriad ar ardaloedd cymunedol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunwyd mai PENLLYN dylai fod enw'r ardal, yn hytrach na BALA.

**Arall:**

- Derbyniwyd y gwahoddiad i fynychu Achlysur Canmlwyddiant y Gwyddelod yn Frongoch.
- Ystyriwyd cais i gau'r ffordd adeg y Triathlon. Cytunwyd fod yr achlysur yn dod ag elw i rai busnesau, er bod busnesau eraill yn dioddef oherwydd cau'r ffordd. Cytunwyd i ofyn i'r Trefnydd newydd ddod i drafod gyda'r Cyngor er mwyn ceisio gwella'r trefniadau.

- Derbyniwyd gwybodaeth am eiddo gwag sydd ar gael yng Nghysgod y Coleg.
- Cytunwyd i ofyn i'r Is-bwyllgor Cyllid roi ystyriaeth i'r ddogfen am gyfraddau cyflog Clercod.
- Enwebwyd Eifion Roberts i gynrychioli'r Cyngor ar fforwm lleol y Campws Dysgu.

**15. Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr/cydlynedd ar geisio bywiogi'r Ffair. Awgrymwyd y byddai barriers plastig wrth gefn y stondinau ar y stryd o gymorth. Dywedwyd fod angen bin mawr ar Y Grin ar noson ffair. Awgrymwyd y dylai parcio fod am ddim ar ddiwrnod ffair.

**16. Asedau'r Cyngor:**

- Derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr. Mae angen sylw ar y fainc bren wrth y llyn a chytunodd Eifion Roberts i wneud y gwaith angenrheidiol. Mae J C Williams hefyd yn trefnu i wneud gwaith arall.
- Adolygwyd gwerth yr Asedau.
- Cytunwyd i greu rhestr o eiddo sydd wedi eu diddymu oherwydd cyflwr gwael neu allan o ddyddiad.

**17. Materion lleol y Cyngorwyr Tref –**

- a. Mynediad i'r feddygfa: ar ôl derbyn nifer o sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd, cytunwyd i anfon at y feddygfa i dynnu sylw at gyflwr peryglus y tarmac rhwng y maes parcio a'r ffordd.
- b. Sbwriel: cytunwyd i dynnu sylw Cyngor Gwynedd fod y biniau stryd a llyn yn orlawn dros Gŵyl y Banc.
- c. Cytunwyd ar ddyluniad ar gyfer hysbysfwrdd y Cyngor ar y cae pêl droed a diolchwyd i Eluned Jones am ei gynllunio.

*Amser gorffen: 9.20pm*